# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7/05/14**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Mike Day | Adran Etholiadol: | Sgeti |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliwyd cymorthfeydd ddwywaith y mis yn y ganolfan gymunedol a'r llyfrgell. Yn ychwanegol, roeddem yn bresennol yn y Farchnad Cynnyrch Fisol yn Sgeti. Gan fod pum cynghorydd, roedd gennym rota ar gyfer trefnu ein bod ar gael yn y ddigwyddiadau hyn. Aethom i gyfarfodydd PACT yn rheolaidd ac, yn y rhan fwyaf ohonynt, roeddem yn eu cadeirio. Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Sgeti a Chymdeithas Preswylwyr Blackpill, Derwen Fawr a Mayals. Gan fod Parc Sgeti'n ardal Cymunedau'n Gyntaf, yn ogystal â Chynghorwyr eraill Sgeti, cynrychiolais y ward ar grwpiau'n ceisio datblygu'r gweithredoedd i gefnogi'r gymuned leol. Fe wnaethom gefnogi preswylwyr Heol Warwick yn eu hymdrechion i leihau effaith safle amwynderau dinesig Clun ar eu bywydau dyddiol.

Bu cyfarfodydd am ddarpariaeth gyffredinol parciau a chyfleusterau chwarae yn Sgeti o ganlyniad i sefydlu Cyfeillion Parc Parry. Euthum i gyfarfodydd am ailwampio fflatiau Clyne Court yn Sgeti. Rwyf wedi helpu nifer mawr o etholwyr unigol (dros 40) gyda phroblemau gan gynnwys problemau parcio, problemau cynllunio, coed a changhennau bargodol a pheryglus, problemau personol, problemau tai, cyngor ac arweiniad addysgol a heriau cyflogaeth a budd-daliadau. Problemau cynllunio oedd y grŵp mwyaf o ymholiadau o bell ffordd.

Y broblem a oedd yn codi'r pryder mwyaf oedd y defnydd Draconaidd o feini prawf ar gyfer cyhoeddi trwyddedau parcio i'r anabl, lle gwrthodwyd bathodyn glas mewn o leiaf un achos teilwng. Hefyd, rhoddais wybod am ddiffygion a phroblemau priffyrdd a'u dilyn, megis goleuadau stryd nad oedd yn gweithio, tyllau yn y ffordd ac arwyddion dangos cyflymder nad oedd yn gweithio.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Council | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Development Management & Control Committee | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Scrutiny Programme Committee | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Student Liaison Forum | 0 | / | 3 | 0 | % |
| OVERALL | 29 | / | 41 | 71 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

O ganlyniad i gadeirio Pwyllgor y Rhaglen Graffu, rwy'n mynd i gyfarfodydd eraill megis cyn-gyfarfodydd a thrafodaethau â swyddogion ar ddatblygiadau nad adlewyrchir yn y ffigurau presenoldeb ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd swyddogol. Sylwer yr effeithir ar fy ffigurau presenoldeb ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu pan maent yn ymwneud â chyfarfodydd arbennig y mater sipsiwn/teithwyr. Fel y cyfryw, rwyf wedi gorfod datgan diddordeb personol a rhagfarnol ac ni chaniateir i mi fynd iddynt.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**
Roeddwn yn llywodraethwr awdurdod lleol yn Ysgol Gyfun yr Olchfa ac yn Ysgol Gynradd Sgeti ac, am gyfnod byr, yn Ysgol Gynradd Hendrefoelan. Rwyf wedi bod yn aelod o Fwrdd Llywodraethu Coleg Gŵyr Abertawe, fel cynrychiolydd cymunedol. Rwyf wedi cadeirio grŵp Adeiladu Addysg Menter yn Abertawe sy'n ceisio annog datblygu sgiliau menter ymhlith plant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed yn rhanbarth Bae Abertawe. Roeddwn ac rwyf o hyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Gyrfa Cymru Gorllewin.

Cefais fy enwebu gan yr CLILC i gynrychioli cynghorwyr Cymru ar Banel Cyfeirio Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys ceisio ffyrdd o wella perfformiad ac arfer gweithgarwch craffu yn holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roeddwn hefyd yn aelod o Banel Gweithredu Cynllun Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES) yn cynghori ar sut gellid rhoi'r YES ar waith.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gweithiais gydag eraill i sefydlu Parc Cyfeillion DeLa Beche a'i nod oedd codi arian i ailwampio'r cyrtiau tenis a oedd yn adfeiliedig. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol ers mis Ionawr. Yn ychwanegol, rwyf wedi gweithio gydag eraill i sefydlu grŵp Cyfeillion Parc Parry sy'n ceisio dod â'r man gwyrdd hwn yn ôl i ddefnydd buddiol.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi ymgymryd â'r hyfforddiant canlynol:
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/10/2013 - Deallusrwydd Emosiynol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Yn ychwanegol at yr hyfforddiant ffurfiol yr ymgymerwyd ag ef, euthum i weithdai craffu cysylltiedig a ddarparwyd yn fewnol, er enghraifft, ar gynllunio gwaith i'r pwyllgor, yn ogystal â rhaglenni allanol, megis y Gynhadledd Graffu Genedlaethol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn ac rwyf o hyd yn arweinydd ac yn ymddiriedolwr Eglwys Parklands, ac yn noddwr Gwersyll Ieuenctid St Madog ar Benrhyn Gŵyr ac yn aelod o Gyngor Cyfeirio Gweini, sefydliad gwirfoddol sy'n ceisio annog a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol eglwysi yng Nghymru.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog lefel uwch - £21,910 y flwyddyn (Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu).

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29.05.14 |